ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Trefniadau drafft gwerthuso a gwella (atebolrwydd) ar gyfer Cymru

Chwefror 2019

# Trefniadau drafft gwerthuso a gwella (atebolrwydd) ar gyfer Cymru

**Cynulleidfa**

Ysgolion cynradd; ysgolion canol; ysgolion uwchradd; ysgolion arbennig; cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir; awdurdodau lleol; awdurdodau esgobaethol; consortia rhanbarthol; cynghorwyr herio; Estyn; undebau athrawon; cyrff cenedlaethol sydd â diddordeb mewn addysg ac aelodau o'r cyhoedd.

**Trosolwg**

Mae'r ddogfen hon yn nodi cynigion drafft ar gyfer trefniadau gwerthuso a gwella (atebolrwydd) newydd i gefnogi'r gwaith o wireddu'r cwricwlwm newydd.

**Camau i'w cymryd**

Dim – er gwybodaeth yn unig.

**Rhagor o wybodaeth**

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Is-adran Effeithiolrwydd Ysgolion
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: SMED2@llyw.cymru

@LlC_Addysg

Facebook/AddysgCymru

**Copïau ychwanegol**

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru/addysgasgiliau

OGL © Hawlfraint y Goron 2019 WG37028

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 2 |
| Cefndir | 3 |
| Yr trefniadau gwerthuso a gwella newydd | 4 |
| Atebolrwydd | 7 |
| Arolygiaeth dysgu | 9 |
| Y camau nesaf | 10 |

## Cyflwyniad

Mae’r ddogfen hon, a’r ffeithluniau amgaeedig, yn nodi crynodeb o’r trefniadau drafft sy’n rhan o’r rhaglen diwygio addysg sylweddol sy’n cael ei chynnal yng Nghymru. Mae’r trefniadau drafft hyn yn ymwneud â:

- gwerthuso a gwella
- atebolrwydd.

Mae’n bwysig cydnabod y bydd y trefniadau hyn yn cael eu datblygu a’u cyflwyno’n raddol dros amser a bydd pethau’n dod yn gliriach wrth i ni bontio rhwng y system gyfredol a’r cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Mae’r trefniadau hyn wedi’u datblygu gyda’r proffesiwn a rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys arbenigwyr rhyngwladol. Rydym yn ddiolchgar am eu cyfraniadau hyd yma ac yn bwriadu dal ati i weithio gyda nhw.

# Cefndir

Ers cyhoeddi *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl* a gyda gwybodaeth o adolygiad y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd o addysg yng Nghymru yn 2017, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda'r proffesiwn addysgu, llywodraeth leol, consortia, Estyn, undebau ac arbenigwyr rhyngwladol i gynnal adolygiad sylfaenol o'r system atebolrwydd bresennol.

Mae'r casgliadau o'r adolygiad atebolrwydd yn glir. Mae canlyniadau anfwriadol y trefniadau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd a'r mesurau perfformio presennol yn cynnwys:

- llai o ddewis o'r cwricwlwm yn y sectorau cynradd ac uwchradd
- y mesur cynhwysol Lefel 2 presennol yn rhoi gormod o ffocws ar ffin C/D TGAU (ddim yn cydnabod cyflawniadau dysgwyr o dan neu uwchben y trothwy hwnnw)
- mae'r ffordd o ddefnyddio meincnodi wedi sbarduno cystadleuaeth rhwng ysgolion ac awdurdodau lleol yn hytrach nag annog cydweithio
- llwyth gwaith cynyddol a diangen ar gyfer athrawon ac eraill yn y system, heb yr effaith na'r budd angenrheidiol ar gyfer dysgwyr.

Felly, gall ysgolion dderbyn negeseuon anghyson ynghylch yr hyn sy'n bwysig a gallai hyn gyfeirio ymdrech i ffwrdd o ddysgu, addysgu a chodi safonau a thuag at ddiwylliant o gydymffurfiaeth a biwrocratiaeth.

Mae'r system ysgolion a gwella ysgolion yng Nghymru yn cynnwys tair elfen benodol. Yr elfen gyntaf yw cynllunio a datblygu polisi; yr ail yw darparu a gweithredu; a'r elfen olaf yw'r swyddogaethau atebolrwydd a gwella sylfaenol sy'n ein galluogi i roi a derbyn sicrwydd bod y system gyfan yn gweithredu'n effeithlon ac yn effeithiol.

Bu datblygiadau mawr o safbwynt cynllunio polisi diolch i ymgysyllu'n barhaus â rhanddeiliaid. Rydym yn disgwyl derbyn adborth ar yr elfen bwysig hon dros y misoedd nesaf.

## Y trefniadau gwerthuso a gwella newydd

Rydym wedi bod yn datblygu trefniadau gwerthuso a gwella newydd i ddisodli rhannau o'r system atebolrwydd gyfredol. Rydym wedi cymryd gofal i sicrhau bod y trefniadau yn cyd-fynd â'r cwricwlwm newydd. Mae'r gwaith hwn yn parhau. Rydym yn cyhoeddi'r papur drafft hwn er mwyn cefnogi a hyrwyddo ymgysylltiad â'r camau nesaf.

Bydd y trefniadau newydd hyn yn gadarn, cydlynol a thryloyw. Byddant yn rhoi elfen drylwyr newydd i drefniadau, gyda disgwyl i ysgolion ysgwyddo mwy o atebolrwydd i sicrhau eu gwelliannau eu hunain. Rydym yn deall y bydd hyn yn gofyn am newidiadau sylweddol i ddiwylliant ac ymddygiad drwy'r system gyfan, ac nid oes disgwyl i'r newidiadau hyn gael eu gwneud ar unwaith. Fe fydd yna gyfnod pontio.

Bydd y trefniadau gwerthuso a gwella newydd hyn yn helpu i sicrhau'r newid diwylliannol sydd ei angen i gefnogi'r gwaith o weithredu a gwireddu'r cwricwlwm newydd. Bydd y cefnogi ein hamcan o godi Safonau, lleihau'r bwlch cyrhaeddiad, a sicrhau system addysg y gall y genedl fod yn filch ohoni ac y gall y cyhoedd hyderus ynddi.

Mae'r trefniadau'n seiliedig ar y pedwar egwyddor allweddol canlynol, sef:

- **teg** – byddant yn hyrwyddo cydraddoldeb, cynhwysiant, dewis, llwybrau unigol i ddysgu a byth yn peidio â chanolbwyntio ar y dysgwr
- **cydlynol** – gadael i bob rhan o'r system gydweithio heb orgyffwrdd, gyda rolau a chyfrifoldebau clir
- **cymesur** – sicrhau bod gweithrediad y trefniadau a'r broses newydd yn ymarferol ac yn gwneud gwahaniaeth. Byddant yn seiliedig ar yr egwyddor sybsidiaredd, gan alluogi cyfrifoldeb lleol am atebolrwydd i ysgolion, dan arweiniad ysgolion sy'n hunanymwybodol
- **tryloyw** – cydnabod hyd a lled profiad dysgu ledled ysgolion a'r gwerth sy'n cael ei ychwanegu gan athrawon yn y dosbarth.

Byddwn yn sicrhau cysondeb cenedlaethol wrth hunanwerthuso i gefnogi gwaith gwella ysgolion o ansawdd uchel. Mae hunanwerthuso cadarn a pharhaus ar gyfer **pob haen** o'r system addysg yn ganolog i'r trefniadau gwerthuso a gwella. Bydd hyn, law yn llaw ag ymgysylltu â chyfoedion yn cefnogi dysgu a gwella, yn ymgorffori cydweithio, yn ennyn ymddiriedaeth, yn sbarduno hunanwella a chodi safonau ar gyfer ein holl ddysgwyr.

Byddwn yn dechrau symud i ffwrdd o bwyslais anghymesur ar fesurau perfformio cul i ystod ehangach o ddangosyddion sy'n cyfleu'r holl brofiad dysgu, cynnydd y dysgwr a'n huchelgeisiau ar gyfer y cwricwlwm newydd yn well.

Mae **trosolwg o drefniadau** yn dangos y cylch gwerthuso a gwella ac yn rhoi mwy o fanylion ar sut y bydd yn cymhwyso'n berthnasol ar bob haen o'r system addysg. Rydym wrthi'n gweithio gyda'n cydweithwyr ledled y llywodraeth, a gyda chydweithwyr o Estyn, Cymwysterau Cymru a llywodraeth leol er mwyn cael trosolwg cynhwysfawr o drefniadau a sut y bydd yn berthnasol ar lefel ymarferol i

bob haen o’r system addysg. Bydd hunanwerthuso cadarn, seiliedig ar ddata yn nodwedd gadarn o drefniadau’r dyfodol. Bydd disgwyl i ysgolion, awdurdodau lleol (a’u consortia rhanbarthol) a Llywodraeth Cymru fynd drwy’r broses o hunanwerthuso, cynllunio gweithredu a chyhoeddi crynodeb o flaenoriaethau.

- **Hunanwerthuso**
  Mae hunanwerthuso yn brosesau sy’n canolbwyntio ar y dysgwr, ei gyflawniadau, cynnydd a phrofiadau yn yr ysgol. Yn ganolog i hyn, er enghraifft, fydd ffocws ar ddysgu ac addysgu, arweinyddiaeth, datblygu diwylliant sefydliad sy’n dysgu, lles dysgwyr a staff, cydraddoldeb a chynhwysiant. Dylai hunanwerthuso ganolbwyntio ar bedwar diben y cwricwlwm newydd a gwerthuso’r cynnydd y mae’r ysgol yn ei wneud tuag at gyflawni’r cwricwlwm newydd. Dylai prosesau hunanwerthuso nodi meysydd cryfderau a blaenoriaethau ar gyfer gwella.

  Bydd hyn yn cael ei gefnogi drwy hunanwerthusiad cenedlaethol newydd ar gyfer y pecyn cymorth gwelliannau sy’n cael ei ddatblygu gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, Estyn a’r proffesiwn. Bydd y meini prawf gwerthuso a’r adnoddau a’r dulliau yn sicrhau cydlyniant ac iaith gyffredin ar gyfer hunanwerthuso mewn ysgolion, ynghyd ag ar gyfer awdurdodau lleol, consortia, Estyn a Llywodraeth Cymru.

  Ni ddylai cyfrifoldeb am hunanwerthuso fod yn gyfyngedig i uwch arweinwyr yn unig; dylai gynnwys pob aelod o staff a rhanddeiliaid eraill, a bydd cyfraniad cymheiriaid yn cryfhau’r broses. Hefyd, dylai ysgolion gynnwys dysgwyr, rhieni/gofalwyr a llywodraethwyr. Bydd yn canolbwyntio ar bedwar diben y cwricwlwm newydd, a bydd yn broses gyson yn hytrach nag yn ddigwyddiad unigol.

  Er mwyn sicrhau cadernid a chymorth, bydd y prosesau hunanwerthuso, cynllunio ar gyfer gweithredu a chrynhoi blaenoriaethau yn destun proses dilysu allanol. Ar gyfer ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol, bydd Estyn yn parhau i gwblhau arolygiaeth drylwyr er mwyn dilysu hunanwerthuso.

- **Cynllunio ar gyfer gwella**
  Bydd y broses hunanwerthuso yn arwain at nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella.

- **Cyhoeddi crynodeb o flaenoriaethau a chynllun gweithredu**
  Bydd crynodeb o’r canfyddiadau allweddol a’r blaenoriaethau yn cael ei gyhoeddi. Mae hyn yn unol â disgwyliadau presennol ar gyfer ysgolion fel rhan o’r rheoliadau ar gyhoeddi cynlluniau datblygu ysgolion, ac nid ydynt yn ychwanegu at y llwyth gwaith. O ran ysgolion, ein bwriad yw y bydd y blaenoriaethau hyn ar gyfer perfformiad yn rhan o’r broses statudol o bennu targedau y bydd angen i’r corff llywodraethu gytuno arnynt ac i’r awdurdod lleol eu cymeradwyo.

  Disgwylir y bydd ysgolion yn cynnwys cyfoedion i gefnogi eu trefniadau hunanwerthuso.

- **Dilysu**
  Mewn ysgolion, bydd y broses ddilysu hon yn cael ei chyflawni gan gonsortia rhanbarthol. Bydd y system genedlaethol ar gyfer categoreiddio ysgolion, sy'n nodi lefel y cymorth sydd ei hangen ar ysgolion o'r system i wella, yn datblygu i broses hunanwerthuso fwy soffistigedig sy'n edrych ar ystod ehangach o ddangosyddion, fel lles dysgwyr. Er mwyn sicrhau trylwyredd a chefnogi awdurdodau lleol, bydd hunanwerthusiadau consortia rhanbarthol a Llywodraeth Cymru yn wynebu proses o ddilysu allanol. Bydd hyn yn sicrhau bod yr hunanwerthusiad yn adlewyrchiad gwir a dilys o gryfderau a blaenoriaethau'r sefydliad ar gyfer gwella, gan gysylltu hynny â lefel briodol o gymorth.

- **Arolygu**
  Bydd Estyn yn parhau i arolygu ysgolion. Fel ymateb i'r adroddiad *Arolygiaeth Dysgu* bydd natur yr arolygu yn newid. Bydd Estyn yn ymgynghori ar y trefniadau hynny maes o law. Bydd Estyn hefyd yn arolygu awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol ac yn barnu'r trefniadau sydd ar waith ym mhob rhanbarth i sicrhau trylwyredd a chysondeb.

- **Dangosyddion gwelliant**

  Mae gan ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol lawer iawn o ddata, ond ar hyn o bryd nid ydynt yn defnyddio'r wybodaeth hon bob amser i sbarduno gwelliant. Mae defnyddio data mewn ffordd ddeallus yn rhan annatod o hunanwerthuso. Rydym wrthi'n gweithio gyda rhanddeiliaid i fapio'r ystod o ddata sy'n gallu llywio hunanwerthuso. Bydd hyn yn ymestyn y tu hwnt i berfformiad dysgwyr yn unig ac yn cynnwys mesurau allweddol eraill yn ymwneud â llesiant, dysgu ac addysgu, ac arweinyddiaeth. Rydym yn rhagweld y byddwn yn defnyddio dangosyddion eang nad ydynt yn hierarchaidd er mwyn darparu amrywiaeth ehangach o wybodaeth ansoddol a meintiol i gefnogi gwaith gwella parhaus ysgolion. Byddwn yn ystyried dangosyddion ledled y system yn ogystal â dangosyddion lefel ysgol. Rydym yn ystyried llwyth gwaith a biwrocratiaeth wrth gynllunio ar gyfer y newidiadau diwylliannol gofynnol, gan barhau i ganolbwyntio ar atebolrwydd er mwyn sicrhau tegwch ar gyfer pob dysgwr yn ein system addysg.

Mae **trosolwg o drefniadau** yn rhoi eglurder ychwanegol ar sut mae hyn yn gymwys i bob haen yn y system. Byddwn yn parhau i weithio gydag ysgolion a'r holl randdeiliaid wrth i ni ddatblygu'r trefniadau hyn.

Mae **cerrig milltir cynllunio allweddol ar gyfer ysgolion hyd 2022** yn darparu gwybodaeth ychwanegol ar y llinellau amser ar gyfer datblygu'r trefniadau gwerthuso a gwella newydd a'r cynhyrchion allweddol o fewn hynny, sef: y pecyn cymorth hunanwerthuso ar gyfer gwella, y broses ddilysu a'r newidiadau arfaethedig i arolygiadau Estyn.

## Atebolrwydd

Mae trefniadau atebolrwydd effeithiol a thrylwyr yn hollbwysig i lwyddiant ein rhaglen ddiwygio uchelgeisiol a'r dyheadau uchel a nodir yng Nghenhadaeth Ein Cenedl. Byddwn yn cynllunio'n briodol er mwyn manteisio ar bob elfen o'r system i ddatblygu trefniadau cymesur a chydlynus.

**Byddwn yn sicrhau bod ein polisïau, ein dogfennau canllaw neu ein newidiadau deddfwriaethol yn cynnwys mesurau diogelu a threfniadau atebolrwydd mewnol lle bo hynny'n briodol.** Bydd yn ofynnol o hyd i ysgolion gyhoeddi eu blaenoriaethau ar gyfer gwella, yn unol â rheoliadau yn ymwneud â chynllun datblygu'r ysgol. Byddwn yn datblygu mesurau ledled y system er mwyn ein helpu i bwyso a mesur cynnydd tuag at weithredu polisïau ar lefel genedlaethol. Byddwn yn osgoi crynhoi data ar lefel ysgolion.

**Byddwn yn defnyddio ein dull cyflenwi a'n trefniadau hunanwerthuso ar gyfer ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol er mwyn sbarduno gwelliant mewn amgylchedd sy'n rhoi blaenoriaeth i gywirdeb a thryloywder.** Bydd disgwyliadau ar gyfer gosod targedau ar lefel ysgol yn parhau, felly hefyd yr angen i awdurdodau lleol gymeradwyo'r broses o osod targedau. Fodd bynnag, bydd y system yn esblygu i roi rhagor o hyblygrwydd i ysgolion nodi targedau gwella sy'n briodol i gyd-destun yr ysgol. Rydym yn disgwyl i ysgolion gynyddu ystod ac ansawdd y dystiolaeth a ddefnyddir i lywio eu trefniadau hunanwerthuso a'u blaenoriaethau ar gyfer gwella. Bydd y swyddogaethau gwella ysgolion sy'n cael eu cyflawni gan gonsortia rhanbarthol ar ran awdurdodau lleol yn parhau. Bydd consortia rhanbarthol yn parhau i ddarparu cymorth i ysgolion ar sail angen, yn unol â'r blaenoriaethau ar gyfer gwella a nodir.

Bydd angen i'r system genedlaethol ar gyfer categoreiddio ysgolion, sy'n nodi lefel y cymorth sydd ei angen ar ysgolion gan y system er mwyn gwella, esblygu'n broses fwy soffistigedig sy'n ystyried amrywiaeth ehangach o ddangosyddion, fel lles dysgwyr. Disgwylir y bydd hyn yn esblygu'n broses barhaus o ddilysu hunanwerthusiad a blaenoriaethau datblygu ysgolion.

**Hefyd, byddwn yn defnyddio trefniadau atebolrwydd democrataidd ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol er mwyn helpu i gyflwyno ein rhaglen ddiwygio.** Bydd cyrff llywodraethu yn parhau i fod yn bennaf gyfrifol am atebolrwydd ysgolion. Bydd eu dyletswyddau'n parhau. Byddwn yn datblygu pecyn hyfforddi ar gyfer llywodraethwyr yn ymwneud â'r disgwyliadau newydd. Bydd Estyn yn parhau i arolygu ysgolion a gwaith awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol. Bydd Estyn yn parhau i lunio adroddiadau blynyddol ac adroddiadau thematig. Hefyd, bydd yn llunio adroddiad cyflwr y genedl bob tair blynedd. Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu ac yn cyflwyno rhaglen monitro perfformiad yn y blaenoriaethau cenedlaethol. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gymryd rhan yn Rhaglen Ryngwladol Asesu

Myfyrwyr (PISA) y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd bob tair blynedd.

**Hefyd, byddwn yn parhau i weithio gyda'r haen ganol ar y newidiadau diwylliannol ac ymddygiadol sydd eu hangen i gefnogi'r trefniadau hyn.** Rydym yn deall bod yn rhaid i ni sicrhau cysondeb rhwng pob elfen o'r gwaith ac osgoi negeseuon anghyson, biwrocratiaeth ddiangen a llwyth gwaith gormodol.

## Arolygiaeth dysgu

Bydd Estyn yn cyfrannu'n allweddol at y trefniadau gwerthuso a gwella newydd fel y nodir yn *Arolygiaeth Dysgu - Adolygiad annibynnol o Estyn*. Roeddem yn cefnogi Estyn yn llawn wrth gynnal yr adolygiad hwn ac yn croesawu'r adroddiad. Mae'r Gweinidog Addysg wedi cyhoeddi ei bod wedi cytuno i gefnogi'r holl argymhellion yn yr adroddiad a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i ystyried a chymeradwyo Llywodraeth Cymru a chefnogi Estyn yn llawn wrth weithredu'r argymhellion hynny sy'n rhan o'u gwaith. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gydag Estyn ar ddatblygu'r rhain, a bydd cyfnod ymgynghori cyn rhoi cynigion ar waith. Ond i fod yn glir bydd Estyn yn parhau i fod yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

O ran yr argymhellion sydd angen eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, mae dyletswyddau statudol Estyn yn parhau. Bydd y gwaith arolygu yn parhau, a bydd yn gadarn ac yn sicrhau tystiolaeth drylwyr a chlir o ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant a ddarperir yng Nghymru.

Bydd ysgolion yn parhau i gael eu harolygu yn erbyn y darpariaethau a nodir mewn deddfwriaeth sylfaenol, law yn llaw â'r pedwar prif gwestiwn a nodir yn *Arolygiaeth Dysgu - Adolygiad annibynnol o Estyn.*

Bydd yr arolygiad yn cael ei atal yn rhannol rhwng Medi 2020 ac Awst 2021 er mwyn galluogi'r arolygiaeth i weithio'n agosach ag ysgolion a chonsortia ar ddiwygio'r cwricwlwm. Bydd hyn yn cael ei wneud drwy ddiwygio rheoliadau cyfredol i ymestyn y cylch arolygu o saith blynedd i wyth mlynedd. Fodd bynnag, bydd yr ysgolion hynny sy'n parhau i achosi pryder yn cael eu monitro gan Estyn yn ystod y cyfnod hwn ac yn parhau i dderbyn cymorth gan eu consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol.

Wrth symud ymlaen, bydd Estyn yn parhau i newid y ffordd o gynnal eu harolygiadau. Bydd hyn yn ymwneud â dilysu prosesau hunanwerthuso a gwella ysgolion a byddant yn cael eu cynnal yn fwy rheolaidd nag yn y cylch presennol. Bydd Estyn yn dechrau proses ymgynghori â rhanddeiliaid ar y trefniadau newydd o 2021. Bydd hyn yn cynnwys arolygu ysgolion fwy nag unwaith o fewn cylch saith blynedd - gan roi mwy o eglurder i rieni/gofalwyr yn amlach o ran sut mae ysgol eu plentyn yn perfformio. Bydd defnydd parhaus o gategorïau statudol o 'Welliannau Sylweddol' a 'Mesurau Arbennig'. Drwy weithio gyda'n rhanddeiliaid, bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn adolygu a chryfhau'r dull o gefnogi'r ysgolion hynny sy'n achosi'r pryder mwyaf.

Rydym wedi parhau i wrando ar a gweithio gyda'n gweithlu ac arbenigwyr rhyngwladol, a chredwn fod y trefniadau hyn, law yn llaw â'r trefniadau gwerthuso a gwella ehangach, yn briodol i'n system ysgolion ac ar gyfer ein plant mewn ysgolion. Bydd Estyn yn gwneud cyhoeddiad pellach ar fanylion yr hyn y mae'n ei olygu iddynt maes o alw.

## Y camau nesaf

Cyhoeddi’r trefniadau drafft hyn yw’r man cychwyn ar gyfer trafod a datblygu. Bydd angen i ni weithio gyda’r proffesiwn a’n partneriaid allweddol yn yr haen ganol i ddatblygu ac egluro’r prosesau, rolau a chyfrifoldebau a mecanweithiau sydd wrth wraidd y cynnig hwn.

Wrth i ni ddiwygio’r trefniadau, rydym yn disgwyl gweld y datblygiadau canlynol yn llywio ein gwaith.

- Adolygiad llawn o ddangosyddion perfformio, sut byddant yn edrych a sut byddant yn cael eu defnyddio.
- Datblygu’r model presennol ar gyfer categoreiddio ysgolion.
- Eglurder ynghylch sut bydd ysgolion sy’n achosi pryder yn cael eu cefnogi.
- Gweithio gyda ein Grŵp Cyflawni Strategol ar Addysg.
- Mwy o eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau yn yr haen ganol.
- Eglurder ar drefniadau asesu yn y dyfodol a gosod targedau.
- Datblygiadau i arolygiadau a rôl Estyn.
- Datblygu pecyn cymorth hunanwerthuso cyffredin ar gyfer gwella i ysgolion.

Rydym yn disgwyl i’r ffactorau hyn gael effaith gadarnhaol ar newid y system, gan gynyddu’r cydweithio rhwng ysgolion a’r rhai yn yr haen ganol, a datblygu mwy o ymreolaeth ar gyfer ysgolion sy’n arwain at system hunanwella aeddfed. Bydd y trefniadau newydd yn eu tro yn sicrhau’r deilliannau addysgol gorau posibl i bob dysgwr.

Ym mis Ebrill, byddwn yn cyhoeddi’r Fframwaith Asesu a Gwerthuso a fydd yn nodi’r gwahaniaeth rhwng asesu – y gweithgareddau hynny sy’n canolbwyntio ar ddysg ac addysgu – a gwerthuso – y rhai at ddibenion hunanwerthuso, atebolrwydd allanol a monitro cenedlaethol.

Rydym yn rhannu’r trefniadau gwerthuso a gwella drafft nawr i ddangos sut mae’r system yn datblygu ac i’ch helpu i baratoi eich adborth ar ein cyfer. Bydd y trefniadau asesu yn cael eu cyhoeddi law yn llaw â’r cwricwlwm newydd ym mis Ebrill.